



**Comisiwn
y Gyfraith**
Diwygio'r gyfraith

Papur Cwmpasu ar Gyfraith Gynllunio yng Nghymru Crynodeb

LCCP228 (Crynodeb)

PAPUR CWMPASU AR GYFRAITH GYNLLUNIO YNG NGHYMURU: CRYNODEB

PENNOD 1: CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r crynodeb hwn yn rhoi amlinelliad byr o bapur cwmpasu Comisiwn y Gyfraith ar gyfraith cynllunio yng Nghymru ac yn nodi cwestiynau ymgynghori i'w ystyried gan randdeiliaid.¹ Am archwiliad mwy manwl o'r materion, dylid cyfeirio at ein papur cwmpasu sydd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar ein gwefan: <http://www.lawcom.gov.uk/>.
- 1.2 Mae'r papur cwmpasu yn cyflwyno ein barn gychwynol ar gwmpas y prosiect a'i fwriad yw mesur cefnogaeth ar gyfer creu Cod Cynllunio newydd i Gymru. Rydym yn croesawu sylwadau ar y materion a godwyd yn y papur hwn, yn ogystal ag ar gostau a manteision ein cynigion rhagarweiniol ar gyfer codeiddio a symleiddio deddfwriaeth gynllunio. Byddwn yn adolygu ein dealltwriaeth bresennol ac yn datblygu ein cynigion yn ofalus ar sail yr ymatebion a roddwyd i'r papur cwmpasu.

Cefndir a diben y papur

- 1.3 Mae cyfraith cynllunio yng Nghymru yn ddiangen o gymhleth ac, mewn mannau, yn anodd ei deall. Mae'n dioddef, yn gyntaf oll, oddi wrth y broblem o ddarnio y mae'n ei rannu â'r gyfraith yn Lloegr. Mae Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ochr yn ochr â dwy statud arall sy'n delio ag adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth² a sylweddau peryglus,³ yn cynnwys y trydydd cydgrynhoad o ddeddfwriaeth gynllunio ers cyflwyno'r system bresennol o reolaeth gynllunio gan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1947.
- 1.4 Mae deddfwriaeth 1990 wedi cael ei disgrifio fel "llwyddiant rhyfeddol",⁴ ond ni wnaeth eglurder y cyflwyno a gyflawnodd bara'n hir. Cafodd deddfwriaeth bellach wedi'i neilltuo yn gyfan gwbl neu'n rhannol i gynllunio ei phasio ym mhob blwyddyn rhwng 1991 ac 1995. Ers 2000 bu chwech o Ddeddfau Seneddol pellach a phedair o Ddeddfau'r Cynulliad. Mae llawer o'r ddeddfwriaeth ddilynol, gan gynnwys Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, yn dod i rym drwy ddiwygio Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; ond mewn rhai achosion, fodd bynnag, mae'n gwneud darpariaeth newydd ar wahân.⁵ Gall fod yn anodd penderfynu a yw'r diwygiadau a wnaed i ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes yn gymwys yng Nghymru, Lloegr neu yng Nghymru a Lloegr.
- 1.5 Cafodd y prosiect ei gytuno gyda Llywodraeth Cymru fel rhan o'n 12fed rhaglen o ddiwygio cyfraith, a'i gylch gorchwyl yw adolygu'r gyfraith sy'n ymwneud â chynllunio gwlad a thref yng Nghymru a gwneud argymhellion i symleiddio a

¹ Mae'r papur cwmpasu yn cael ei gyhoeddi fel Papur Cwmpasu Cyfraith Cynllunio yng Nghymru (2016) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 228.

² Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

³ Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990.

⁴ *Hansard* (HC) 14 Mai 1990, cyfrol 172, col 714 (Mr John Fraser AS).

moderneiddio'r gyfraith.⁶ I ddechrau fe wnaethom archwilio'r ffordd y mae'r broses rheoli datblygu yn gweithredu yn ôl y gyfraith ac yn ymarferol. Er ein bod wedi dod i'r casgliad y gallai'r system elwa o ystod o ddiwygiadau, ni wnaethom ganfod bod angen am newid mawr pellach yn y maes hwn. Yn ystod ein hadolygiad a'r ymgynghoriadau cynnar, fodd bynnag, rhannodd randdeiliaid eu pryderon am gymhlethdod a diffyg hygyrchedd y gyfraith, a gwnaethant yn glir fod angen i'r gyfraith gael ei symleiddio a'i moderneiddio. Cafodd y prosiect ei ailstrwythuro i adlewyrchu'r angen hwn ym Medi 2015.

1.6 Mae cyhoeddi'r papur cwmpasu yn cyd-fynd â, ac yn cael ei seilio ar, ein prosiect Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru.⁷ Yn yr adroddiad hwnnw, rydym yn argymhell ymagwedd newydd at godeiddio deddfwriaeth gan y Cynulliad Cenedlaethol, y mae ei nodweddion fel a ganlyn:

- (1) bod y cyrff tameidiog o ddeddfwriaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd sy'n berthnasol mewn perthynas â Chymru o ran pwnc penodol yn cael eu hail-ddatgan mewn un darn o ddeddfwriaeth y Cynulliad (proses a elwir yn aml yn "gydgrynhoi" deddfwriaeth);
- (2) ar y cyd â'r broses o gydgrynhoi, bod y cyfle yn cael ei gymryd i gyflwyno diwygiadau gyda golwg ar wella gweithrediad deddfwriaeth; ac
- (3) y dylai'r testun sy'n deillio sefyll fel cod, gyda'i gyfanrwydd yn cael ei ddiogelu gan ddisgyblaeth y dylai deddfwriaeth bellach yn ei faes pwnc gael ei hymgorffori ynddi.

1.7 Rydym yn ystyried dros dro y dylai codeiddio deddfwriaeth cynllunio yng Nghymru gynnwys:

- (1) ailddatgan y gyfraith bresennol fel ei bod cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol yn cael ei chynnwys o fewn un darn o ddeddfwriaeth mewn dull modern, cyson a threfnus fel ei bod yn hygyrch i'w darllenwyr;
- (2) addasiadau i gynhyrchu testun wedi'i gydgrynhoi'n foddhaol o'r math a wnaed yn draddodiadol yn ystod y cydgrynhoi - cywiro gwallau, dileu amwysedd a deunydd anarferedig, moderneiddio iaith a datrys amrywiaeth o fân anghysondebau;
- (3) symleiddio'r gyfraith trwy symleiddio a rhesymoli proses a gweithdrefn ddiangen, ond peidio â chyflwyno unrhyw newid sylweddol o ran polisi; ac
- (4) ysgrifennu i mewn i statud gynigion cyfraith a ddatblygwyd mewn cyfraith achosion lle y gallent gyfrannu tuag at ddeddfwriaeth fwy hygyrch a chydlynol. Rydym yn disgrifio hyn fel "codeiddio cyfraith achos", i'w wahaniaethu oddi wrth godeiddio mewn ystyr ehangach a ddisgrifir

⁵ Er enghraifft, cyflwynodd Deddf Cynllunio 2008 system genedlaethol o gymeradwyaeth ar gyfer "prosiectau seilwaith o bwys cenedlaethol"

⁶ Y ddeuddegfed Rhaglen o Ddiwygio'r Gyfraith (2014) Comisiwn y Gyfraith Rhif 354.

⁷ Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru (2016) Comisiwn y Gyfraith Rhif 366

uchod.

- 1.8 Rydym yn rhagweld y broses hon fel y cam cyntaf yn y gwaith o gynhyrchu Cod Cynllunio cynhwysfawr ar gyfer Cymru maes o law. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chynllunio a defnydd tir yng Nghymru yn swmpus, ac yn cynnwys o leiaf 48 darn gwahanol o ddeddfwriaeth.⁸ Mae'r papur cwmpasu yn ceisio nodi'r statudau allweddol a'r pynciau i gael eu dwyn o fewn cwmpas darn cychwynnol o godeiddio, a'r angen am a maint y diwygiad technegol sy'n ofynnol i gynhyrchu darn gwell o ddeddfwriaeth.
- 1.9 Mae'r prosiect hwn wedi ei strwythuro mewn tri cham. Mae'r cam cyntaf yn ymwneud â chwmpas y prosiect. Mae'r papur cwmpasu yn nodi ein syniadau ar hyn o bryd ond bwriedir i'w gyhoeddi hefyd roi cyfle i randdeiliaid roi sylwadau ar ein safbwyntiau amodol. Bydd yr ail gam yn cynnwys y gwaith o lunio ein cynigion sylweddol o ran ffurf a chynnwys darn cychwynnol o ddeddfwriaeth wedi'i chodeiddio. Byddwn yn cyhoeddi papur ymgynghori, yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ac yna yn adrodd ar ein casgliadau ynghylch y gwaith o lunio'r darn hwnnw o ddeddfwriaeth. Yna bydd adolygiad lle rydym yn gobeithio sefydlu proses gyda Llywodraeth Cymru i gynhyrchu Mesur neu Fesurau drafft i weithredu ein casgliadau.

Asesiad effaith

- 1.10 Mae cyfarfodydd ymchwil a chyn ymgynghori â rhanddeiliaid yng Nghymru yn dangos bod yna alw gwirioneddol am gydgrynhoi a diwygio technegol y gyfraith cynllunio yng Nghymru. Ein bwriad yw cynhyrchu Asesiad Effaith Rheoleiddiol (AERh/RIA) yn ystod cyfnod sylweddol y prosiect. Bydd yr AERh/RIA yn nodi effeithiau ariannol ac anariannol diwygio, gyda'r nod o ddeall effaith cyffredinol ar y gymdeithas a'r amgylchedd ehangach.
- 1.11 Mae'r ymarferiad o baratoi Cod Cynllunio newydd yn anochel yn golygu costau, megis: amser a dreulir gan gwnsler deddfwriaethol i ymchwilio a drafftio Mesur newydd; amser a dreulir gan gyfreithwyr a swyddogion y llywodraeth yn cefnogi cwnsler deddfwriaethol; paratoi canllawiau a hysbysu awdurdodau lleol, diwydiant a'r cyhoedd am ddeddfwriaeth newydd; amser y Cynulliad i ystyried bil newydd; a'r amser a gymerir gan ddefnyddwyr i ddeall a chymhwyso unrhyw newidiadau.
- 1.12 Rydym, fodd bynnag, wedi nodi budd sylweddol yn deillio o ganlyniad i God Cynllunio yng Nghymru, er enghraifft: gwelliannau yng ngallu defnyddwyr i gael mynediad at a dehongli'r gyfraith; enillion effeithlonrwydd o ran arbed amser i awdurdodau lleol, busnesau ac unigolion; lleihau costau proffesiynol (ffioedd cyfreithiol ac ymgynghoriaeth) a warir gan ymgeiswyr; lleihau nifer yr ymholiadau gan ddarpar ymgeiswyr i'r awdurdod lleol am eglurhad o'r gyfraith; gwelliannau mewn cyfranogiad cymunedol yn y broses gynllunio drwy gynhyrchu testun mwy hygyrch; a manteision ehangach i'r economi a chymdeithas os yw datblygiad yn llai tebygol o fod yn destun oedi.
- 1.13 Ein barn ragarweiniol yw y bydd y manteision posibl sy'n debygol o godi o gyflawni'r ymarferiad hwn o werth sylweddol i ddefnyddwyr y system gynllunio ac

⁸ Rydym wedi nodi 48 darn sylweddol o ddeddfwriaeth sylfaenol. Gweler Papur Cwmpasu Cyfraith Cynllunio yng Nghymru (2016) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 228, para 4.3.

yn drech na'r costau uchod.

Cwestiwn ymgynghori 1-1: Rydym yn gofyn i randdeiliaid roi unrhyw ffigurau, amcangyfrifon neu brofiadau sydd ar gael i ni o gostau ariannol ac anariannol a achosir gan ddeddfwriaeth gynllunio or-gymhleth neu sy'n ddiffygiol mewn ffordd arall.

Cwestiwn ymgynghori 1-2: Rydym yn gofyn i randdeiliaid roi enghreifftiau i ni o gostau a buddion y gellid eu hennill trwy gydgyrnhoi a symleiddio deddfwriaeth gynllunio.

PENNOD 2: CYD-DESTUN EHANGACH Y PROSIECT

- 1.14 Mae'r bennod hon yn nodi datblygiad hanesyddol cyfraith cynllunio Cymru cyn ac ers cymhwysedd datganoledig i ddeddfu ar gynllunio gwlad a thref.⁹ Mae'n olrhain esblygiad y prif ddarnau o ddeddfwriaeth cynllunio yng Nghymru, ac yn disgrifio'r fframwaith cyfreithiol y byddai Cod Cynllunio newydd yn ffithio o'i fewn.
- 1.15 Mae'n cyfeirio at y gyfres o Ddeddfau rhyng-gysylltiedig a basiwyd yn ddiweddar gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru: Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae cysylltu'r darnau hyn o ddeddfwriaeth yn ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy er mwyn gwella llesiant Cymru yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

PENNOD 3: YR ACHOS DROS GOD CYNLLUNIO

- 1.16 Ein barn ar hyn o bryd yw bod creu Cod Cynllunio yn creu cyfle prin i roi sylw i agweddau problemus o'r fframwaith deddfwriaethol presennol.
- 1.17 Bydd codeiddio yn creu darn o ddeddfwriaeth sy'n fwy hygyrch i'r cyhoedd ac yn haws i'w defnyddio. Mae'n gyfle i hybu cyfranogiad y cyhoedd ac i baratoi fframwaith deddfwriaethol sy'n canolbwyntio ar anghenion ei defnyddwyr. Mae hefyd yn ei gwneud yn bosibl i hyrwyddo twf economaidd drwy symleiddio gweithdrefnau a dileu cymhlethdod diangen.

Anawsterau â'r fframwaith deddfwriaethol presennol

- 1.18 Mae ar gyfraith cynllunio yng Nghymru angen ei symleiddio a'i chydgyrnhoi am nifer o resymau rhyng-gysylltiedig: maint y ddeddfwriaeth bresennol; cymhlethdod y gyfraith, yn arbennig o ystyried cyfraith a pholisi sy'n wahanol yng Nghymru a Lloegr; ac yn gyffredinol, anhygyrchedd y gyfraith o ganlyniad.

⁹ Deddf Llywodraeth Cymru 2006, rhan 4.

- 1.19 Er bod yr holl ddarpariaethau cynllunio perthnasol ar un adeg yn cael eu cynnwys mewn un Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref, erbyn hyn mae o leiaf 48 o ddarnau sylweddol o ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud â defnyddio a datblygu tir yng Nghymru. Nid yw pynciau gwahanol wedi eu cyfyngu'n daclus o fewn Deddfau ar wahân, ac mae'r gyfraith mewn perthynas â materion cysylltiedig yn aml wedi'i gwasgaru rhwng nifer o wahanol Ddeddfau. Mae datganoli yng Nghymru wedi ychwanegu dimensiwn newydd at sefyllfa sydd eisoes yn gymhleth, gyda darpariaethau statudol ar wahân yn gymwys yng Nghymru a Lloegr. Er enghraifft, os yw darpariaeth yn cyfeirio at awdurdod cynllunio lleol ("LPA"), mae'n rhaid edrych at y cymal dehongli i wirio a yw'r cyfeiriad at "gynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol." Os nad yw, nid yw'r ddarpariaeth yn gymwys o ran awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru.¹⁰ O ganlyniad, mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn arbennig o anhygyrch ar gyfer y rhai nad ydynt yn gyfarwydd â'r system gynllunio.

Adolygu'r cydbwysedd rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd

- 1.20 Mae'r bwriad i greu Cod Cynllunio yn rhoi cyfle unigryw i adolygu'r cydbwysedd rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd. Rydym yn honni fel ein man cychwyn bod yn rhaid i'r Cod Cynllunio gael ei gefnogi gan gyfres o is-ddeddfwriaeth. Mae'r system gynllunio yn swmpus, yn dechnegol iawn ac mae angen ei diwygio'n aml. Ond ein bwriad yw asesu'r darpariaethau fesul achos yng nghyfnod sylweddol y prosiect.
- 1.21 Ar un llaw, gallai anfon materion manwl i gael eu setlo gan y weithrediaeth helpu'r Ddeddf sylfaenol i fod yn syml ac yn glir. Gallai defnyddwyr gael gafael dda ar strwythur y gyfraith, ac yna ganolbwyntio ar fanylion y rhannau o'r system sy'n berthnasol i'w pryderon. Ar ben hynny, gallai is-ddeddfwriaeth leihau'r pwysau ar amserlen deddfwriaethol y Cynulliad - nid yw'n ddarostyngedig i'r un lefel o graffu â Deddfau'r Cynulliad. Mae hyn yn caniatáu rhywfaint o egni defnyddiol, gan y gallai gael ei diwygio yng ngoleuni profiad neu er mwyn ymateb i amgylchiadau sy'n newid.
- 1.22 Ar y llaw arall, gallai un darn o ddeddfwriaeth yn manylu ar y rhan fwyaf neu'r cyfan o weithrediad y system gynllunio helpu i wneud y system yn fwy tryloyw a gwella hygyrchedd. Ar ben hynny, dylai unrhyw ddarpariaeth sylweddol, fel mater o egwyddor, fod yn destun craffu llawn trwy weithdrefn Biliau'r Cynulliad.
- 1.23 Mae'n amlwg fod angen cael cydbwysedd ym mhob achos, gan gymryd i ystyriaeth bwysigrwydd craffu gan y Cynulliad Cenedlaethol, defnydd effeithlon a phriodol o amser y Cynulliad neu Bwyllgor, arwyddocâd y ddarpariaeth dan sylw, hirhoedledd y ddarpariaeth, yr angen am hyblygrwydd a'r effaith ar hygyrchedd i'r defnyddiwr. Yng nghyfnod sylweddol y prosiect, byddwn yn ystyried y defnydd o is-ddeddfwriaeth yng ngoleuni'r egwyddorion cyffredinol a ddisgrifiwyd uchod a chanlyniadau adolygiad a gynlluniwyd gan Lywodraeth Cymru.

Cwestiwn ymgynghori 3-1: Rydym o'r farn fod yna achos cryf dros greu Cod Cynllunio newydd. A yw rhanddeiliaid yn cytuno?

Cwestiwn ymgynghori 3-2: Rydym yn gofyn barn rhanddeiliaid ar

¹⁰ Gweler, er enghraifft, Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, a 37.

ddosbarthiad darpariaethau rhwng y Cod Cynllunio - naill ai ym mhrif gorff y ddeddfwriaeth neu mewn Atodlen - a deddfwriaeth eilaidd a wnaed oddi tano.

PENNOD 4: CWMPAS RHAN GYNTAF COD CYNLLUNIO

- 1.24 Er mwyn codeiddio'r cyfan o'r gyfraith sy'n ymwneud â chynllunio, bydd angen cynnal cyfres o ymarferion codeiddio ar wahân. Rydym wedi ceisio nodi cwmpas cyfnod cychwynnol y cod sy'n delio â chynllunio a rheoli datblygu. Wrth bennu cwmpas ein Cod Cynllunio arfaethedig, rydym wedi ystyried nifer o ffactorau gan gynnwys: blaenoriaeth ac adnoddau, amllder defnydd, a rhannu'r pynciau yn ystod y cam hwn o godeiddio a'r cyfnodau diweddarach.

Pynciau rydym yn ystyried yn amodol sydd o fewn y cwmpas

- 1.25 Rydym yn nodi yn amodol nifer o ddarpariaethau cynllunio craidd ac ategol sy'n dod o fewn cwmpas y darn cyntaf o gydgyrchoi.
- 1.26 Defnyddir rhannau craidd cyfraith cynllunio i reoli ystod eang o weithgareddau cynllunio, o estyniadau domestig ar raddfa fach i ddatblygiadau preswyl ar raddfa fawr, defnydd cymysg, datblygiadau masnachol neu ynni. Y rhannau hyn o'r system gynllunio - ac yn benodol, y broses o roi caniatâd cynllunio a hyrwyddo datblygiad - sydd â chysylltiadau agos ag economi Cymru. Mae gan godeiddio rôl i'w chwarae wrth sicrhau gweithrediad effeithiol y rhannau craidd hyn o'r system drwy wneud y ddeddfwriaeth mor gydynol a hygyrch â phosibl.
- 1.27 Rydym yn ystyried yn amodol bod y pynciau a restrir isod o fewn cwmpas y darn cyntaf o godeiddio. Maent yn dod yn bennaf o Rannau 3 a 7 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Rhan 6 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015).
- (1) Pwrpas y system gynllunio.
 - (2) Gweinyddu'r system gynllunio.
 - (3) Natur y datblygiad.
 - (4) Y broses o wneud y cynllun.
 - (5) Y broses o chwilio am ganiatâd cynllunio.
 - (6) Cywiriadau.
 - (7) Gorfodi.
- 1.28 Rydym yn ystyried yn amodol y dylai darpariaethau penodol eraill gael eu cynnwys o fewn y Cod Cynllunio arfaethedig i sicrhau ei weithrediad effeithlon, gan eu bod yn aml yn dod i fodolaeth o ganlyniad i weithrediad y darpariaethau craidd. Mae'r rhain yn cynnwys y categorïau canlynol o ddarpariaethau.
- (1) Dilysrwydd penderfyniadau.
 - (2) Darpariaethau ariannol.

- (3) Darpariaethau amrywiol a chyffredinol.
- (4) Datblygiad sy'n effeithio ar briffyrdd.
- (5) Ymgwymerwyr statudol.
- (6) Tir y Goron.
- (7) Hawliau i'w gwneud yn ofynnol i brynu tir.
- (8) lawndal (gan gynnwys tir a ddifethwyd gan gynigion datblygu).
- (9) Uno cyfundrefnau caniatâd presennol (rydym yn delio â hyn ymhellach isod).

Pynciau rydym yn ystyried yn amodol sydd y tu allan i'r cwmpas

1.29 Rydym yn ystyried yn amodol bod y pynciau canlynol y tu allan i gwmpas y prosiect hwn; er eu bod yn delio â materion sy'n ymwneud â datblygu a defnyddio tir, nid ydynt wedi'u cysylltu'n ddigonol â'r darpariaethau canolog a amlinellwyd yn flaenorol, a byddent yn cael eu codeiddio'n well mewn mannau eraill o fewn y rhaglen waith ehangach.

- (1) Rheolaethau yn ymwneud â choed

Rydym o'r farn y gallai camau pellach y Cod Cynllunio roi cyfle mwy addas ar gyfer codeiddio deddfwriaeth diogelu coed ar wahân.

- (2) Pwerau i fynnu bod perchnogion tir yn adfer cyflwr tir

Byddai hyn yn cyd-fynd yn fwy priodol â darpariaethau eraill wedi'u hanelu at wella tir ac adfywio ardaloedd yn ehangach, er enghraifft, darpariaethau yn Neddf Tai ac Adfywio 2008.

- (3) Prynu tir yn orfodol at ddibenion sy'n gysylltiedig â chynllunio

Mae hwn yn bwnc mawr, ac am amrywiaeth o resymau rydym o'r farn y dylid ei eithrio o ran gyntaf y Cod Cynllunio.¹¹

- (4) Sylweddau peryglus

Mae Deddf Sylweddau Peryglus 1990 yn ymwneud yn bennaf â diogelwch y cyhoedd.

Cyfnodau codeiddio

1.30 Rydym hefyd wedi rhoi rhywfaint o ystyriaeth i'r hyn a allai ffurfio'n destun ar gyfer cyfnodau diweddarach codeiddio. Ein barn amodol yw y gallai cynllun ymarferol o godeiddio yn dechrau gyda rheoli cynllunio a datblygu fod ar y ffurf ganlynol:

- (1) Cynllunio Datblygu a Rheoli Datblygu: yn gryno, byddai hyn yn delio ag awdurdodau cynllunio, cynlluniau datblygu, caniatâd cynllunio, apeliadau,

herio statudol, gorfodi, a phynciau cysylltiedig.

- (2) Yr Amgylchedd Hanesyddol: mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y gallai Cadw¹² fod yn ystyried y posibilrwydd o gydgrynhoi deddfwriaeth amgylchedd hanesyddol maes o law. Gallai codeiddio'r ddeddfwriaeth hon gynnwys darpariaethau ynglŷn â henebion, ardaloedd archeolegol a'r rhannau hynny o'r ddeddfwriaeth ar adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth nad ydynt wedi eu codeiddio, ynghyd â chynllunio a rheoli datblygu.¹³
 - (3) Yr Amgylchedd Gwledig: byddai hyn yn dod â'r corff gwahanol o ddeddfwriaeth sy'n ymdrin â pharciau cenedlaethol, ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol (AHNE), gwarchodfeydd natur, coed a choedwigaeth, gwrychoedd a chefn gwlad yn gyffredinol at ei gilydd.
 - (4) Adfywio a Datblygu: byddai hyn yn ymdrin â phwerau Gweinidogion ac ACLI (LPAs) sy'n ymwneud â gwella ac adfywio tir, caffael a datblygu tir i ddibenion cynllunio, ei gwneud yn ofynnol i dirfeddianwyr adfer cyflwr eu tir, pwerau i wella tir diffaith, grantiau ar gyfer gwelliannau, a gwella tai.
 - (5) Sylweddau Peryglus: gellid cydgrynhoi Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990, gan ymgorffori'r darpariaethau sy'n ymwneud â sylweddau peryglus a geir yn y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref ("TCPA 1990").
- 1.31 Rydym yn cydnabod nad oes modd cael cynllun perffaith o ran creu adrannau taclus. Bydd y dull gweithredu fesul cam yr ydym yn meddwl amdano yn gadael llawer o'r Deddfau Seneddol presennol o leiaf yn rhannol mewn grym mewn perthynas â Chymru nes bydd y broses godeiddio yn gyflawn. Bydd hyn, am gyfnod, yn gadael y llyfr statud presennol mewn cyflwr anfoddhaol - er, rydym yn gobeithio, sy'n mynd yn llai anfoddhaol yn gynyddol wrth i fwy o ddeddfwriaeth gael ei chodeiddio. Byddai angen i adael darpariaethau yn neddfwriaeth bresennol Cymru a Lloegr fod yn fesur dros dro, hyd nes byddai'r broblem yn cael ei datrys maes o law drwy godeiddio mwy helaeth.

Cwestiwn ymgynghori 4-1: Rydym yn croesawu sylwadau rhanddeiliaid ar gwmpas arfaethedig darn cychwynnol o gyfraith gynllunio wedi'i chodeiddio, sy'n canolbwyntio ar gynllunio a rheoli datblygu.

Cwestiwn ymgynghori 4-2: Rydym yn croesawu barn rhanddeiliaid ar y pwnc o gyfnodau diweddarach o godeiddio a'r cynllun ehangach o godeiddio a awgrymwyd.

¹² Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru.

¹³ Ein barn ragarweiniol ni a fynegwyd ym Mhennod 7 yw y gallai trefnau caniatâd ar wahân ynghylch datblygiad mewn ardaloedd cadwraeth a/neu sy'n effeitho ar adeiladau rhestredig eistedd o fewn trefn caniatâd cynllunio'r brif ffrwd

PENNOD 5: DIWYGIO TECHNEGOL

- 1.32 Ein barn ni yw y dylai ymarferiad codeiddio fynd y tu hwnt i gydgrynhoi ac ystyried diwygiadau sy'n rhesymoli sylwedd y gyfraith ac yn gwella proses a gweithdrefn. Rydym yn categoreiddio gwelliannau o'r fath fel "diwygio technegol", gyda'r nod o wella eglurder, cysondeb a hygyrchedd y gyfraith. Ni fwriedir i'r diwygiadau gyflwyno unrhyw newid polisi sylweddol i'r gyfraith. Mewn ymgais i osod terfynau priodol ar yr ymarferiad hwn rydym wedi nodi categorïau o ddiwygio sydd yn ein barn ni o fewn y cwmpas.

Diffyg eglurder diffiniadol neu anghysondeb mewn geiriad

- 1.33 Mae yna ddarpariaethau yn y gyfraith bresennol sy'n aneglur yn eu cymhwysiad neu'n anghyson yn eu geiriad. Lle byddwn yn nodi darpariaethau o'r fath, mae achos amodol da dros ddiwygio i wella eglurder a hygyrchedd Cod Cynllunio newydd.

Enghraifft

Tir gweithredol

Mae ymgymerwyr statudol yn gyrff a awdurdodwyd gan unrhyw ddeddfiad i barhau ag un o'r ymrwymadau a bennir yn adran 262(1) o DCGth 1990 (cludo yn bennaf neu ymgymeriadau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth). Mae rhai o'r darpariaethau arbennig sy'n gymwys i ymgymerwyr statudol yn berthnasol i'w tir gweithredu'n unig, fel y'u diffinnir yn adran 263. Mae adran 263(1) yn diffinio dau gategori o dir gweithredol: gall tir fod yn weithredol os caiff ei ddefnyddio at ddibenion yr ymgymeriad o dan sylw, neu os caiff diddordeb ei gadw ynddo at y diben o gynnal yr ymgymeriad hwnnw.

Yn ôl adran 263(2) nid yw'r naill gategori na'r llall yn cynnwys tir sy'n fwy "cymharol yn hytrach â thir yn gyffredinol" nag â thir a ddefnyddir ar gyfer ymgymeriadau statudol. Mae'n ymddangos fod y gwaharddiad wedi'i fwriadu i eithrio eiddo megis siopau, swyddfeydd, ystafelloedd arddangos ac annedd-dai sy'n eiddo ymgymerwr statudol, hyd yn oed os ydynt yn cael eu defnyddio mewn rhyw ffordd ar gyfer yr ymgymeriad. Mae DCGTh 1990 yn ceisio gwahaniaethu rhwng tir a ddelir gan ymgymeriad ar gyfer dibenion cyffredinol neu ar gyfer buddsoddi, a thir a ddefnyddir mewn gwirionedd ar gyfer rhedeg yr ymgymeriad. Yn *ex p Cyngor Sir Swydd Warwick*, mae a yw'r gwaharddiad yn berthnasol yn gwestiwn o ffaith yn ôl y Llys Adrannol.¹⁴

Ein barn ragarweiniol ni yw bod gan y ddarpariaeth hon y potensial i fod yn broblematig ac y gellir gofyn am welliannau drwy egluro'r gwaharddiad yn y Cod Cynllunio arfaethedig.

Diwygio anghysondebau yn y broses a symleiddio gweithdrefn

- 1.34 Mae darpariaethau yn y gyfraith bresennol sy'n cael yr effaith bosibl o arafu gweithrediad y system, gan gynhyrchu anghysondebau, anomaleddau a rhwystro hygyrchedd i bobl sydd am gymryd rhan yn y broses gynllunio. Dylai darpariaethau o'r fath, yn ein barn ni, gael eu hystyried ar gyfer eu diwygio yng nghyfnod sylweddol y prosiect.

¹⁴ *R v Y Gweinidog Tanwydd a Phŵer, ex p Cyngor Sir Warwick* [1957] 1 WLR 861

Enghraifft

Cysondeb o ran rhoi caniatâd cynllunio

Mae Adran 70(1)(a) o DCGTh 1990 yn rhoi pŵer cyffredinol i ACLI roi caniatâd cynllunio naill ai'n ddiamed neu'n ddarostyngedig i amodau fel y gwelant yn dda. Gwnaed hyn yn amlwg ddarostyngedig i adrannau 91 a 92, sy'n ei gwneud yn ofynnol bod pob caniatâd cynllunio neu ganiatâd cynllunio amlinellol yn cael ei ganiatáu yn amodol ar yr amod bod rhaid i'r datblygiad ddechrau o fewn cyfnod rhagnodedig.

Mae Adran 73(2)(a) o DCGTh 1990 yn caniatáu i ACLI roi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad a wnaed heb gydymffurfio ag amodau yr oedd y caniatâd a roddwyd yn ddarostyngedig iddynt. Gallai'r ACLI naill ai roi caniatâd ffres, boed yn ddarostyngedig i amodau gwahanol neu'n ddiamed, neu benderfynu y dylai'r caniatâd cynllunio fod yn ddarostyngedig i'r un amodau ag a osodwyd yn flaenorol.

Mae'r pŵer i ACLI roi caniatâd cynllunio yn ddiamed o dan adran 73(2)(a), yn wahanol i adran 70(1)(a), yn gwrthdaro ag adrannau 91 a 92. Ni ddylai fod yn gyfreithlon i ACLI ganiatáu caniatâd cynllunio diamed o dan adran 73, ac eithrio lle mae'r datblygiad eisoes wedi dechrau.

Ein barn ragarweiniol ni yw y dylai'r hyn sy'n cyfateb i adran 73(2)(a) hefyd fod yn ddarostyngedig yn benodol i'r hyn sy'n cyfateb i adrannau 91 a 92 yn y Cod Cynllunio arfaethedig.

Darpariaethau darfodedig, dyblygol a heb ddechrau

1.35 Rydym o'r farn y dylai cadw darpariaethau gael ei ystyried ymhellach yng nghanam sylweddol y prosiect, yn arbennig lle:

- (1) nad yw'r ddarpariaeth wedi dechrau yng Nghymru, ac nid oes bwriad dechrau arni;
- (2) nid yw'r sail resymegol dros ddeddfu'r ddarpariaeth yn bod mwyach;
- (3) nid yw'r ddarpariaeth wedi cael ei defnyddio am nifer o flynyddoedd;
- (4) mae darpariaethau dyblygol yn cyflawni'r un pwrpas;
- (5) mae'r ddarpariaeth wedi rhoi'r gorau i wasanaethu unrhyw ddiben; neu
- (6) mae arfer amgen wedi disodli'r angen am y ddarpariaeth.

1.36 Byddem yn gobeithio, trwy nodi, ac yn y pen draw, ddiddymu darpariaethau darfodedig, dyblygol neu sydd heb ddechrau, y daw'r gyfraith yn gliriach, yn enwedig i'r darllenwyr hynny nad oes ganddynt wybodaeth fanwl am y system gynllunio.

Enghraifft

Comisiynau Ymchwiliadau Cynllunio

Mae adran 101 o DCGTh 1990 yn darparu ar gyfer cyfansoddiad y

Comisiwn Ymchwiliadau Cynllunio, sy'n cynnwys tri i bum aelod yn hytrach na'r arolygydd sengl arferol, i weithredu fel tribiwnlys mewn ymchwiliadau cynllunio arbennig sy'n ymwneud â materion o bwysigrwydd cenedlaethol neu ranbarthol, neu ystyriaethau technegol neu wyddonol newydd.

Nid oes unrhyw Gomisiwn Ymchwiliadau Cynllunio wedi cael ei gyfansoddi ers creu'r pŵer, ac mae ei swyddogaeth wedi cael ei feddiannu gan y weithdrefn caniatâd datblygu ar gyfer seilwaith o bwys cenedlaethol yn Neddf Cynllunio 2008. Yn ein barn ragarweiniol gallai gwelliannau gael eu gwneud drwy ystyried cynnig dros dro ar gyfer diddymu'r Comisiwn Ymchwiliadau Cynllunio yn ystod cyfnod sylweddol y prosiect.

Darpariaethau nad ydynt yn adlewyrchu arfer sefydledig

- 1.37 Rydym yn bwriadu sicrhau bod testun darpariaeth yn adlewyrchu defnydd a dehongliad y ddarpariaeth. Un ffordd y gellir cyflawni hyn yw drwy godeiddio cyfraith achosion, a dylai rhan hon y papur cwmpasu gael ei darllen felly ar y cyd â Phennod 7.

Enghraifft

Hawl i apelio yn erbyn diffyg penderfynu ar amod sydd ynghlwm wrth gymeradwyo mater a gadwyd yn ôl

Mae adran 78(1) DCGTh 1990 yn darparu apêl yn erbyn methiant i benderfynu materion a gadwyd yn ôl a'r methiant i benderfynu ar gymeradwyaethau dilynol sydd ynghlwm wrth ganiatâd amlinellol o fewn cyfnod penodol o amser. Nid yw adran 78(1), fodd bynnag, yn ymestyn yn benodol yr hawl i apelio i'r diffyg penderfyniad o amod sydd ynghlwm wrth gymeradwyo materion a gadwyd yn ôl.

Fel y cadarnhawyd yn *R v Cyngor Dosbarth Newbury ex p Stevens a Partridge*¹⁵, mae gan ACLI bŵer ymhlyg o dan adran 78 i osod amod ar gymeradwyo mater a gadwyd yn ôl, ar yr amod nad yw'r cyflwr yn dirymu'r caniatâd amlinellol a roddwyd eisoes. Mae'r egwyddor wedi cael ei thrawsosod yn ddiweddarach i Gylchlythyr Llywodraeth Cymru 16/14 ar ddefnyddio amodau cynllunio ar gyfer rheoli datblygu. Ym Mhennod 7, rydym yn trafod codeiddio'r egwyddor hon. Fodd bynnag, oni bai ei fod yn amlwg yn adran 78 (1), nid oes hawl i apelio yn erbyn amod sydd ynghlwm wrth gymeradwyo materion a gadwyd yn ôl.

Ein barn ragarweiniol ni yw y gellid gwneud gwelliannau gan ystyried a ddylai'r un hawl i apelio fod yn gymwys gydag amod sydd ynghlwm wrth gymeradwyaeth materion a gadwyd yn ôl, ag y sydd i amodau ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio neu gymeradwyaeth materion a gadwyd yn ôl eu hunain.

Casgliadau

- 1.38 Ein barn ni yw bod diwygio technegol ochr yn ochr â chydgrynhoi yn cynnig cyfle i gynhyrchu darn gwell o ddeddfwriaeth na'r hyn y mae'n ei ddisodli. Mae'n rhoi cyfle i fynd i'r afael ag anghysondebau a moderneiddio'r system mewn ffyrdd mân ond pwysig; gofynnwn am farn ynghylch a ddylid gwella agweddau ar y system heblaw am y rhai rydym wedi'u crybwyll.

Cwestiwn ymgynghori 5-1: Rydym yn gwahodd barn rhanddeiliaid ynghylch a ddylid, fel y trafodwyd yn y bennod hon, mynd ar drywydd diwygio technegol yng nghyfnod sylwedd y prosiect.

Cwestiwn ymgynghori 5-2: Rydym yn gwahodd awgrymiadau gan randdeiliaid ynghylch meysydd dymunol ar gyfer diwygio technegol sy'n dod o fewn ein system ddosbarthu.

PENNOD 6: UNO CYFUNDREFNAU CANIATÂD

- 1.39 Mae'r bennod hon yn ymdrin ag un enghraifft o'r diwygio technegol rydym yn ei ddisgrifio uchod. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, fod uno cyfundrefnau caniatâd yn gorwedd ar y ffin rhwng diwygio technegol a diwygio sy'n ceisio sicrhau newid mewn polisi. O ganlyniad, rydym yn ei drafod yn bur fanwl.
- 1.40 Er bod caniatâd cynllunio yn chwarae rhan ganolog wrth benderfynu a allai datblygiad fynd yn ei flaen, mae yna ganiatâd statudol arall sy'n aml yn angenrheidiol yn ogystal â chaniatâd cynllunio er mwyn caniatáu i ddatblygiad fynd yn ei flaen. Mae'r rhain yn delio ag adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig, hysbysebu, ardaloedd cadwraeth, amddiffynfeydd bwydydd, gwaith ar goed a gwrychoedd, rhywogaethau a warchodir, safleoedd a warchodir, sylweddau peryglus, rheoliadau traffig, a rheoliadau adeiladu.
- 1.41 Mae'r gorgyffwrdd rhwng caniatâd cynllunio a chaniatâd statudol eraill yn agor y posibilrwydd o ddwyn ynghyd rai o'r cyfundrefnau caniatâd gwahanol hyn, a symud tuag at fodel mwy integredig, symlach.
- 1.42 Mae tynnu ynghyd rai elfennau o ganiatâd cysylltiedig â chynllunio o fewn y system gynllunio prif ffrwd â'r potensial i wella tryloywder ac eglurder yn y system, gwneud y system yn fwy ystyrlon a galluogi aelodau o'r gymuned leol i gymryd golwg mwy cyflawn a gwybodus ar y cynigion datblygu. Gallai uno hefyd wneud y system yn fwy llyfn a'r broses o wneud penderfyniadau'n fwy cyson, gan fod yr ymarfer yn rhoi cyfle i ddileu anghysondebau bach rhwng y gwahanol gyfundrefnau caniatâd statudol sy'n bodoli ar hyn o bryd. Er enghraifft, terfynau amser camau gorfodi a gofynion ar gyfer hysbysu neu gyhoeddi cynnig datblygu sydd mewn rhai achosion yn wahanol, gan ddibynnu ar y math o ganiatâd a geisir. Yn ymarferol, mae'r gofyniad gweithdrefnol mwyaf llym yn cael ei ddilyn i osgoi camgymeriad, ond byddai dull cliriach, safonedig yn fuddiol.
- 1.43 Os ydym i fynd ymlaen â'r mater hwn yng ngham sylweddol y prosiect, ein barn ragarweiniol yw y dylid canolbwyntio ar y cyfundrefnau caniatâd hynny sydd wedi'u cysylltu'n fwyaf agos â chynllunio. Ein barn ni yw bod hyn yn gyfystyr â'r elfennau hynny o ganiatâd y mae eu hangen ar gyfer adeiladu a gweithrediadau cysylltiedig eraill (megis newidiadau strwythurol, adeiladu, ailadeiladu, a dymchwel) yn benodol: caniatâd adeilad rhestredig, caniatâd ardal gadwraeth a chaniatâd hysbysebu. Rydym yn amlinellu eu nodweddion allweddol yn gryno:

- (1) Caniatâd adeilad rhestredig

¹⁵ [1992] JPL 1057.

Mae angen caniatâd adeilad rhestredig ar gyfer unrhyw waith i ddymchwel unrhyw ran o adeilad rhestredig neu i'w newid neu ei ymestyn mewn ffordd sy'n effeithio ar ei gymeriad fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.¹⁶

Mae ymgymryd â gwaith, neu beri bod gwaith yn cael ei wneud, i adeilad rhestredig a fyddai'n effeithio ar ei gymeriad fel adeilad o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol arbennig, heb ofyn yn gyntaf am ganiatâd adeilad rhestredig, yn drosedd.¹⁷ Gwneir penderfyniadau caniatâd gan yr ACLI yn dilyn gweithdrefnau hysbysu ac ymgynghori.¹⁸

(2) Caniatâd ardal gadwraeth

Mae ACLI o dan ddyletswydd gyfreithiol i ddynodi ardaloedd cadwraeth fel unrhyw ardal sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, y mae'n ddymunol eu cadw neu wella eu cymeriad neu eu hymddangosiad.¹⁹

Mae ardaloedd cadwraeth yn mwynhau gwarchodaeth arbennig o dan y gyfraith ac mae angen caniatâd ardal gadwraeth ar gyfer dymchwel pob adeilad heb eu rhestru, bron.

Mae methiant i gael caniatâd ardal gadwraeth pan fo angen yn drosedd.²⁰ Gwneir penderfyniadau caniatâd gan yr ACLI yn dilyn gweithdrefnau hysbysu.²¹

(3) Caniatâd hysbysebu

Mae'r darpariaethau sy'n ymwneud â rheoli hysbysebion awyr agored yn set annibynnol o Reoliadau - Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref 1992 (Rheoli Hysbysebion), a oedd yn gymwys yn wreiddiol yng Nghymru a Lloegr, ond sydd wedi bod yn gymwys yng Nghymru yn unig ers 2007.

Mae llawer o hysbysebion y tu allan i gwmpas Rheoliadau 1992. Rhoddir caniatâd tybiedig yn awtomatig i lawer (yn amodol ar gyfyngiadau niferus ynghylch maint, llewyrch a manylion eraill). Mae ar nifer cymharol fach angen caniatâd penodol, sy'n rhaid ei geisio gan yr awdurdod cynllunio lleol.

Mae'n drosedd arddangos hysbyseb heb ganiatâd.²² Lle bo angen, gwneir penderfyniadau am ganiatâd gan yr ACLI.

¹⁶ Deddf Adeiladau Rhestredig 1990, a 66 (1).

¹⁷ Deddf Adeiladau Rhestredig 1990, a 7

¹⁸ Deddf Adeiladau Rhestredig 1990, a 15

¹⁹ Deddf Adeiladau Rhestredig 1990, a 69 (3).

²⁰ Deddf Adeiladau Rhestredig 1990, a 9.

²¹ Deddf Adeiladau Rhestredig 1990, a 17.

²² Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992, rheoliad 27.

1.44 Byddai'r diwygiadau sy'n ofynnol i uno cyfundrefnau caniatâd yn amrywio yn dibynnu ar faint yr ymarferiad a gynhaliwyd. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, y byddai angen i unrhyw newidiadau yn y dyfodol fodloni nifer o amcanion polisi craidd. Ein barn ar hyn yn fras, yw y dylai diwygio'r gyfundrefn ganiatâd gyflawni'r nodau a restrir isod.

(1) Cynnal y lefel gyfredol o ddiogelwch ar gyfer asedau hanesyddol

Mae'n ymddangos yn debygol, hyd yn oed ar ôl iddo gael ei ddwyn o fewn y broses caniatâd cynllunio prif ffrwd, y bydd caniatâd mewn perthynas â datblygiadau ag elfen dreftadaeth, yn dal angen mewnbnw arbenigol gan swyddogion cadwraeth.

(2) Gweithredu'n effeithiol ochr yn ochr â systemau ar gyfer rheoli'r amgylchedd hanesyddol

Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn hyrwyddo diogelu a rheoli'r amgylchedd hanesyddol yn y dyfodol, mewn modd sydd wedi ei ddylunio i alluogi yn hytrach na dim ond gweithredu fel rhwystr i newid a datblygu. Rhaid i unrhyw ddiwygiadau i'r broses ganiatâd weithredu ochr yn ochr â'r dull hwn, a gweithio gydag ef, tuag at reoli'r amgylchedd hanesyddol.

(3) Gwneud y system yn fwy hygyrch

Ar gyfer gweithwyr proffesiynol nad ydynt yn ymwneud â chynllunio, ar gyfer datblygwyr a'r cyhoedd yn arbennig, gallai agweddau ar y system bresennol o ganiatâd cynllunio ac sy'n gysylltiedig â chynllunio, fod yn anodd eu deall. Rhaid i unrhyw ddiwygiadau allu dangos eu bod yn gwneud y system hon yn fwy dealladwy a hygyrch, yn hytrach nag ychwanegu at gymhlethdod.

(4) Lleihau biwrocratiaeth, gwneud y system yn fwy effeithlon a symleiddio'r fframwaith deddfwriaethol

Mae'r prosiect hwn yn ceisio symleiddio'r gyfraith drwy ddileu beichiau diangen sy'n llifo o'r fframwaith deddfwriaethol tameidiog, yn ogystal â cheisio gwella eglurder, effeithlonrwydd, sicrwydd a hygyrchedd. Felly rhaid i unrhyw ddiwygiadau i'r cyfundrefnau caniatâd presennol allu dangos y byddant yn hyrwyddo'r nodau hyn.

Cwestiwn ymgynghori 6-1: Rydym yn ystyried bod tynnu caniatâd at ei gilydd fel y nodir yn y bennod hon yn debygol o gyflwyno system sy'n fwy agored, hygyrch a chyson. Rydym yn gofyn am farn rhanddeiliaid ar y buddion ymarferol hynny a allai ddeillio o'r ymarfer.

Cwestiwn ymgynghori 6-2: Rydym yn ceisio sylwadau'r rhanddeiliaid ynghylch a ddylem fod yn edrych ar gyfuno cyfundrefnau caniatâd yn un broses statudol, neu yn hytrach gadw'r gwahaniad rhwng y prosesau, ond gan gyflwyno'r rhain ynghyd mewn un lle yn y Cod Cynllunio arfaethedig.

Cwestiwn ymgynghori 6-3: A yw rhanddeiliaid o'r farn fod unrhyw elfennau

(ac os oes, pa rai) o'r caniatâd statudol a nodwyd yn y bennod hon yn addas ar gyfer uno?

Cwestiwn ymgynghori 6-4: Rydym yn ceisio unrhyw dystiolaeth y gallai rhanddeiliaid ei rhoi ar nifer y ceisiadau am ganiatâd cynllunio sydd ar hyn o bryd yn dod gyda cheisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig, ardal gadwraeth neu hysbysebu.

PENNOD 7: CODEIDDIO CYFRAITH ACHOSION

- 1.45 Mae'r manylion sydd eu hangen i ddeall darpariaethau a geir yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("DCGTh 1990") yn aml i'w canfod y tu allan i ddeddfwriaeth sylfaenol, mewn cyfraith achosion a chanllawiau. Mae hyn o reidrwydd yn gwneud y gyfraith yn fwy cymhleth ac yn anodd cael ati. Rydym yn ystyried yr achos dros roi cyfraith achos ar ffurf statudol fel rhan o'r ymarfer codeiddio ehangach.
- 1.46 Gallai gwneud hynny gyfrannu tuag at gynhyrchu ffurfiad mwy cyflawn o'r gyfraith ar ffurf hygyrch ac egluro'r canlyniadau darpariaethau nad ydynt wedi eu hegluro: er enghraifft, effaith amod cynllunio annilys ar y caniatâd cynllunio yn ei gyfanrwydd. Gallai ddarparu ateb penodol i bwynt sydd heb unrhyw ateb ar wyneb y statud, gan wella eglurder y testun deddfwriaethol. Rydym wedi categorioeddio'r mathau o gyfraith achosion yr ydym yn tybio, mewn egwyddor, sy'n briodol ar gyfer codeiddio.

Diffiniadau

- 1.47 Mae termau statudol yn aml yn cael eu gadael heb eu diffinio. Gall fod achos dros godeiddio diffiniadau cyflawn a rhai heb fod yn gyflawn o dermau statudol. Mae diffiniadau cyflawn, fel mae'r enw'n awgrymu, yn datgan ystyr cyflawn term diffiniedig; ac mae'n bwysig nodi eu bod yn disodli ystyron cyffredin neu dechnegol eraill. Maent yn cael eu defnyddio fel arfer i egluro term amwys neu'n lleihau cwmpas gair neu ymadrodd. Mae diffiniadau heb fod yn gyflawn, ar y llaw arall, yn rhagdybio yn hytrach na'n disodli ystyr arferol y term. Maent yn cael eu defnyddio'n aml i ehangu ystyr cyffredin gair neu ymadrodd, ymdrin â cheisiadau ffiniol, neu ddangos sut y cymhwysir gair neu ymadrodd drwy nodi enghreifftiau.

Enghraifft

Cwrtil

Mae Adran 55(2)(d) o DCGTh 1990 yn darparu nad yw'r defnydd o dir o fewn cwrtil tŷ annedd ar gyfer unrhyw bwrpas sy'n gysylltiedig â mwynhau'r tŷ annedd, yn cael ei gymryd i gynnwys datblygu tir at ddibenion DCGTh 1990.

Nid yw'r cysyniad o "gwrtil", fodd bynnag, wedi'i ddiffinio mewn statud ac yn lle hynny, mae wedi datblygu mewn cyfraith achosion²³. Mae tri ffactor y gellir

²³ *Sinclair-Lockhart's Trustees v Central Land Board* 1951 SC 258, 264; *Dyer v Cyngor Sir Dorset* [1988] QB 346; *Skerritts of Nottingham Ltd v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau (Rhif 2)* [2000] 2 PLR 102; *Atwrnai Cyffredinol ex rel. Sutcliffe v Cyngor Bwrdeistref Calderdale* (1983) 46 P&CR 399.

eu cael: cynllun ffisegol yr adeiladau a'u strwythur; eu perchnogaeth, yn y gorffennol a'r presennol; a'u defnydd neu swyddogaeth, yn y gorffennol a'r presennol. Ein barn ragarweiniol yw y gallai diffiniad o gwrtil wella tryloywder y gyfraith.

Egwyddorion Cyfraith Cynllunio

- 1.48 Gallai egwyddorion cyfraith cynllunio bennu y gall canlyniad dymunol, pan fydd cyfres benodol o ffeithiau'n codi, arwain y sawl sy'n gwneud y penderfyniad neu ddarparu rhestr o faterion priodol i'w hystyried wrth wneud penderfyniad cynllunio. Er eu bod yn cael eu datgan mewn termau cyffredinol, gall yr egwyddorion fod yn berthnasol i achosion penodol i hyrwyddo cysondeb ac unffurfiaeth.
- 1.49 Mae egwyddorion cyfraith cynllunio, wrth eu natur, yn gyfnewidiol, yn esblygol ac yn anghyflawn. O ganlyniad, mae'n rhaid cymryd gofal arbennig wrth ddewis achosion sy'n sefydlu egwyddorion cyfraith cynllunio ar gyfer eu codeiddio. Serch hynny, mewn rhai achosion, gall fod yn briodol crynhoi egwyddorion yn y Cod Cynllunio newydd. Yn yr achosion hyn, mae'r egwyddorion wedi'u cymhwysu'n gymharol fecanyddol mewn dull fel rheolau, yn ddarostyngedig i eithriadau cyfyngedig, ac maent yn angenrheidiol i ddatblygu dealltwriaeth gyflawn o'r broses gynllunio.

Enghraifft

Cymeradwyo materion a gadwyd

Yn *Thirkell v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd*, rhoddwyd caniatâd amlinellol i adeiladu 23 o dai ar safle.²⁴ Gwnaeth Thirkell gais am gymeradwyaeth materion a gadwyd yn ôl. Fe wnaeth yr ACLI wrthod rhoi caniatâd ar ôl canfod bod ailgyfeirio arfaethedig y llwybr ceffylau yn anfoddfaol. Roedd y ddwy ochr, fodd bynnag, yn derbyn y byddai'n rhaid ailgyfeirio'r llwybr ceffylau. Fe wrthododd yr Arolygydd, ar apêl, gynllun y lleiniau, gan nodi os byddai'r llwybrau ceffylau'n cael eu hailgyfeirio, byddai "cymeriad gwledig hyfryd" yr ardal yn dioddef. Dyfarnodd Willis J nad oedd yr Arolygwr â hawl i ystyried trefoli'r ardal gan y datblygiad a ganiatawyd fel ffactor perthnasol i wrthod yr apêl, gan fod y trefoli'n ganlyniad anochel o'r caniatâd cynllunio amlinellol.

Yr egwyddor a sefydlwyd oedd bod rhoi caniatâd amlinellol yn gyfystyr ag ymrwymiad gan yr awdurdod cynllunio lleol i egwyddor y datblygiad, gan atal yr awdurdod rhag gwrthod cymeradwyo unrhyw fater a gadwyd yn ôl ar seiliau sydd yn mynd at egwyddor y datblygiad.

Ein barn ragarweiniol ni yw bod y rheol hon wedi'i hen sefydlu, yn glir ac yn gallu cael ei chodeiddio.

Llenwi bylchau lle mae cwmpas darpariaethau statudol yn aneglur

- 1.50 Mae rhai amwyseddau a gynhwysir yn narpariaethau DCGTh 1990 wedi cael eu hegluro gan gyfraith achosion. Gallai codeiddio yn yr achosion hyn helpu i sicrhau bod testun y statud yn rhoi esboniad cyflawn o'r broses cynllunio berthnasol, gan wella hygyrchedd ac eglurder y gyfraith.

²⁴ [1978] JPL 844.

Enghraifft

Y terfyn amser ar gyfer gwneud cais o dan adran 288 o DCGTh 1990

Cais i'r llys o dan adran 288 yw'r unig ffordd o gwestiynu dilysrwydd penderfyniad a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Yn *Griffiths v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd*, dyfarnodd Tŷ'r Arglwyddi fod yr amser yn dechrau rhedeg o'r dyddiad mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cymryd cam di-droi'n ôl ynghylch y penderfyniad, wrth deipio, llofnodi a dyddio llythyr y penderfyniad, ac nid pan gaiff ei dderbyn gan yr apelydd.²⁵ Yn *Stainer v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd*, ychwanegodd y Dirprwy Farnwr fod Dydd Nadolig a gwyliau banc yn cyfrif wrth gyfrifo'r cyfnod amser o chwe wythnos i wneud cais.²⁶

O ystyried na all yr Uchel Lys ymestyn caniatâd i apelio y tu hwnt i'r cyfnod o chwe wythnos, mae'n hanfodol bod apelydd yn gwybod erbyn pryd y mae'n rhaid gwneud cais o dan adran 288. Yn ein barn ragarweiniol ni, mae mantais sylweddol mewn codeiddio'r rheolau cyfraith achosion hyn.

Casgliadau

- 1.51 Yng nghyfnod sylweddol y prosiect, byddwn yn cyflwyno rhestr o gynigion cyfraith achosion yr ydym yn eu cynnig yn amodol, sy'n crynhoi'r ddeddfwriaeth.

Cwestiwn ymgynghori 7-1: Rydym yn croesawu barn rhanddeiliaid ar y rheolau a ddygir i'r Cod Cynllunio, yn enwedig ynghylch dehongli termau statudol anniffiniedig, egwyddorion cyfraith cynllunio a llenwi'r bylchau lle mae cwmpas y darpariaethau statudol yn aneglur.

Cwestiwn ymgynghori 7-2: Rydym yn croesawu unrhyw awgrymiadau o gyfraith achosion y mae rhanddeiliaid yn eu hystyried yn arbennig o briodol ar gyfer codeiddio.

²⁵ [1983] 2 AC 51.

²⁶ (1993) 65 P&CR 310 (David Widdicombe QC).